# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

145 MAI 1988


# MAE'N TYNNU YMA I LAWR

Codwyd ac agorwyd y Theatr Newydd yn 1906 ac mae'n adlewyrchu ffasiwn bensaerniol y cyfnod hwnnw, ac wedi bod yn gyrchfan i ddinasyddion Caerdydd oddiar hynny. Ddiwedd fis Ebrill ail agorwyd y Theatr Newydd ar ei newydd wedd, a hynny wedi un mis ar ddeg o ail wneud. Y mae'r newidiadau yn ddramatig. Y mae yno fariau a chynteddau newydd ynglyn a grisiau trawiadol. Er y newidiadau i gyfateb ag anghenion yr oes ymdrechwyd i gynnal arddull Edwardaidd gwreiddiol yr adeilad. Y mae'n dda gennyf ddweud bod yno arwyddion dwyieithog.

Bu'n fenter cymhleth a chostus, ond gwaith gwerth chweil er cynnal un o theatrau hyntaf y Ddinas, ac yn wir Cymru. Bydd yn deilwng o'n Prifddinas. Y penseiri oedd Renton Howard Wood Levin. Teimlent iddynt lwyddo i weddnewid y theatr gan ehangu adnoddau o fewn maentiau cyfyngedig. Ceisiodd y Cynllunydd Clare Farraday lynnu at arddull Edwardaidd gwreiddiol y theatr. Yr argraff a geir yw bod yr holl fenter wedi llwyddo i droi piser peint yn biser chwart. Yn sicr, bydd y Theatr Newydd yn destun balchder, edmygedd, ac yn atyniad i unrhyw ymwelydd a Chaerdydd. Cwmni Theatr Clwyd gaiff y fraint o berfformio yn y Theatr ar ei newydd wedd gyda chynhyrchiad o ddrama Alan Ayckbourne 'A Chorus of Disapproval'. Cost y gweddnewidiad yw £3.25 miliwn.

Tra'n llawenhau yn y datblygiad hwn, trist clywed bod Cyngor y Ddinas yn ystyried dymchwel y Wyndham Arcade. Anghyson braidd ynte? Daw hyn a llinellau o emyn i'm meddwl:

Mae'n tynnu yma i lawr
Yn codi draw!



Y Theatr Newydd

# YN CODI DRAW!




Wyndham Arcade

# LLYTHYRAU

CAIS AM GYMORTH

oddi wrth Y LOLFA

Yn dilyn llwyddiant ysgubol cyhoeddi'r DYDDIADUR DESG am y tro cyntaf y llynedd, bwriadwn gyhoeddi DYDDIADUR DESG 1989 erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol eto, eleni. Bydd y Dyddiadur Poced hefyd, wrth gwrs, yn ymddangos yr un pryd.

Er mwyn i'r ddau Ddyddiadur fod mor gywir ag sy'n bosibl erfyniwn am eich cymorth, yn Fudiadau, Cymdeithasau, Papurau Bro ac yn y blaen. Gwnewch yn siwr fod eich sefydliad chi yn cael ei gynnwys drwy anfon y manylion perthnasol at y cyfeiriad isod erbyn 20 Ebrill 1988.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi beirniadaeth adeiladol ac unrhyw sylwadau a fyddai'n gwneud y ddau Ddyddiadur yn fwy defnyddiol.

Diolch ymlaen llaw i chi am ein helpu i ddarparu Dyddiaduron safonol a defnyddiol yn yr iaith Gymraeg.

Meinir Vittle
Y Lolfa
Talybont
Aberystwyth
Dyfed
SY24 5HE

---

Annwyl Olygydd

Unwaith eto 'rym ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol arall. Mor gyflym mae'r flwyddyn yn carlamu! Megis ddoe 'roeddwn yn eich cyfarch ac yn diolch i bawb am gefnogi'r gwan a'r anghenus drwy Gymorth Cristnogol.

Dymunaf ddatgan ar ran staff Cymorth Cristnogol yng Nghymru ein bod yn gwerthfawrogi ymroad ac ymateb pobl led led ein gwlad. Mae'n galonogol dweud fod cyfanswm yr hyn a gasglwyd yn ystod Wythnos Cristnogol 1987 yn fwy nag erioed o'r blaen, gyda phobl Cymru yn cyfrannu £293,000. Mawr yw'n dyled i'n holl gefnogwyr gwirfodol am drefnu gweithgareddau yn eu broydd ac am gasglu o dŷ i dŷ.

Mae'r hyn a dderbyniwyd flwyddyn yn ôl, bellach yn sialens i wneud eto'n well eleni. Felly apeliaf at holl ddarllenwyr ein "papurau bro" yng Nghymru i wneud eu gorau glas i roi gobaith newydd i'n cyd-ddyn yn y Trydydd Byd.

Mae angen y diymgeledd a'r diamddiffyn yn fawr - rhoddwn iddynt y cyfle i ddatblygu eu bywyd gyda'r cyfrifoldeb i fyw heb ormes na thrais pwerau grymus ein byd.

Fel pobl ym mhroydd Cymru, ceisiwn bartneru ag eraill yn eu hangen drwy rannu â hwy yn ystod 14 - 21 Mai.

Gyda dymuniadau da i weithwyr dyfal a chydwybodol eich "papur bro" ac i'r holl ddarllenwyr.

Yn ddiffuant iawn

Wynn Vittle
Ysgrifennydd Cymorth Cristnogol

CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

Pen Roc
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth
Dyfed
SY23 2AX

Mawrth 17 1988

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf atoch ar ran Grwp Statws Cymdeithas yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r ymgyrch dros DDEDDF IAITH NEWYDD. Yn ddiweddar tynnwyd sylw y Gymdeithas at nifer o gwynion yn erbyn DVLC, yn arbennig y prinder o ddogfennau dwyieithog a gyhoeddir ganddynt. Yn naturiol teimlwn mai hawl sylfaenol bob Cymro yw cael dogfennau perthnasol yn ein hiaith ein hunain, ac felly galwn ar y DVLC i weithredu polisi iaith cyflawn a fuasai'n golygu cyhoeddi pob dogfen a ffurflen perthnasol i Gymru yn ddwyieithog.

I'r perwyl hwn yr ydym yn lansio ymgyrch i bwyso ar y DVLC i weithredu polisi iaith ac apeliwn am gymorth PAWB yn yr ymgyrch bwysig hon. Ein bwriad ar EBRILL 25 yw bod cannoedd o ffurflenni cofrestru cerbyd (sy'n uniaith Saesneg) yn cael eu dychwelyd i'r DVLC yn Abertawe er mwyn dangos bod barn gyhoeddus gadarn o blaid gweld y DVLC yn gweithredu polisi iaith cyflawn. Hyderwn y bydd hyn yn gorfodi'r DVLC i adolygu eu polisi iaith.

Apeliwn arnoch felly i bostio eich ffurflen cofrestru cerbyd un ôl i'r ADRAN DRAFNIDIAETH, DRIVER AND VEHICLE LISCENSING CENTRE, LONGVIEW DRIVE, ABERTAWE, GORLLEWIN MORGANNWG, erbyn EBRILL 25 er mwyn eich hanfodionrwydd ynghylch sefyllfa bresennol yr iaith Gymraeg o fewn y DVLC. Gwerthfawrogem hefyd pe byddai modd i chi adael i ni wybod yma yn y swyddfa os ydych yn dychwelyd eich ffurflen. Nodwn ei bod yn bwysig iawn bod y Gymdeithas yn cadw cofnod o bob ffurflen a gaiff ei dychwelyd.

Rhan yw hyn o'r ymgyrch dros DDEDDF IAITH NEWYDD - deddf a fuasai'n gorfodi corfforaethau megis y DVLC i weithredu polisi iaith cyflawn.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth

Dros Gymru

Alun Llwyd
Cadeirydd Grwp Statws
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

---

Neuadd Pantycelyn
Penglais
Aberystwyth
Dyfed

Mawrth 1988

Annwyl Olygydd

Drwy gyfrwng colofnau'r Dinesydd hoffem fynegi ein siom yn y rhaglen 'Aber'. Carem ddarbwyllo eich darllenwyr ac yn enwedig darpar fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth mai portread hollol annheg ac anghytbwys a gyflwynir yn y gyfres. Os mai creu synhwyriadaeth ('sensationalism') oedd bwriad y BBC yna y maent yn amlwg wedi llwyddo. Fe'n portreadwyd fel carfan hollol anniwylliedig, di-gydymdeimlad a meddwol. Mewn cyfnod pan ei bod hi'n bwysig denu cyfnifer o Gymry Cymraeg ag sydd yn bosib i golegau prifysgol Cymru, hoffem gymryd y bydle i nodi rhai o'r gweithgareddau lu na ddewiswyd i'w dangos yn ystod y gyfres.

Yn sgil ein hwythnos RAG eleni casglwyd dros bedair mil o bunnoedd at elusennau lleol yn Aberystwyth a chyfranwyd dros fil o bunnoedd at 'Blant Mewn Angen'. Rydym yn darparu partion ar gyfer yr anabl, yn cefnogi Eisteddfod yr Urdd a 'r Ŵyl Gerdd Dant. Ymysg ein gweithgareddau ceir cymdeithasau fel Taliesin, yr Undeb Gristnogol, Y Celtaidd, Grŵp Cefnogi Nicaragua, Talwrn y Beirdd a Thîm Siarad Cyhoeddus. Aberystwyth enillodd yr Eisteddfod Ryngolegol yn Abertawe eleni, ar ôl wythnosau o ymarfer cyson, yn bump o gorau, partion ac unigolion niferus heb sôn am y ddrama.

Gobeithio yn fawr nad yw'r rhaglen wedi amharu ar fwriad a dymuniad disgyblion ysgolion y cylch i ddod i Aberystwyth. Naïf fyddai credu mai dim ond yn Aberystwyth y ceir yfed a meddwi. Fel y gwyddom i gyd y mae hyn yn digwydd ymhob haen o gymdeithas ac ymhob coleg. Nid yw wedi ei gyfyngu i Aberystwyth yn unig. Twp fyddai meddwl y gwrthwyneb.

Y ni fyddai'r cyntaf i gyfaddef nad ydym yn anglynion, ond ni fydd pob myfyriwr o Aberystwyth yn debygol o farw o sglerosis yr afu ymhen tair blynedd chwaith!

Yr eiddoch

Eleri Morgan
Lowri Jones
Angharad Jones
Sion Jobbins
Bethan Williams

---

Cyhoeddwyd record gyntaf Meic Stevens yn y Gymraeg ugain mlynedd yn ôl ym mis Mai 1968 ("Yr Eryr a'r Golomen").

I ddathlu'r achlysur hanesyddol hwn, bydd pedair rhaglen arbennig yn cael eu darlledu yn ystod "Cadw Cwmni" ar Radio'r Ddraig Goch drwy gydol mis Mai.
Darlledir "Cadw Cwmni" rhwng 9 ac 11 o'r gloch bob nos Sul ar Radio'r Ddraig Goch, sy'n gwasanaethu De-Ddwyrain Cymru ar 97.4 neu 103.2 VHF, a 221 neu 230 ar y donfedd ganol.



# Menna'n Manylu

Glwysoch chi'r gwenc honno ar Stondin Sulwyn dro'n ôl nad ydi rygbi'n gêm i ferched - i ymweld â'r cae dwi'n feddwl, ac nid i chwarae'r gêm ei hun? Ar un ystyr, yn dilyn fy mhrofiad personol i y tymor diwetha 'ma, dwi'n dueddol o gytuno.

Rhwydd hynt i bob merch wneud fel y myn hi ddweda i, ond wna i byth fentro i dorf o filoedd o ddynion ar frys eto - nid yn unig am fod dynion o'r gwanaf ryw, ond am fod gennai fwy o barch ata i fy hun yn gorfforol!

Dwi 'di bod yn dilyn rygbi ers bron i ddeg mlynedd bellach er mai lleugwr o'r Gogledd ydw i, a dwi'n mwynhau'r wefr o weld y cryse cochion yn curo gymaint â neb. Ond, er fy nghywilydd, fues i erioed ym Mharc yr Arfau tan eleni. Mawr oedd fy malchder felly, pan ddaeth fy chwaer adre un noson cyn y 'Grand Slam' efo tocyn i mi i'r gêm bwysig honno.

Daeth y dydd hir-ddisgwyliedig, a finne ar bine isio profi'r teimlad o fod ymhlith y miloedd yn y dorf - i ganu'n Anthem Genedlaethol ymysg yr holl Gymry balch eraill, a chanu 'Calon Lân' nes ei bod yn adsain gwefreiddiol dros y lle.

Ond och! mawr oedd fy siom pan es drwy'r giatau a chael fy ngwthio efo'r dorf nes oeddwn yn lleden wyneplwyd yn erbyn y wal - fy nwylo o'm blaen i arbed f'ysgyfaint a'm traed yn cael eu codi gan rym y cannoedd y tu ôl imi. Modfedd yn unig oedd i gyrraedd y fynedfa, ond fedrwn i ddim symud modfedd un ffordd na'r llall! Oedd, roedd 'Hen Wlad fy Nhadau' yn annwyl i mi, a'm calon yn weddol lân tan hynny! Dyma chwarter awr mwyaf dychrynllyd fy mywyd, a'r anhawster i anadlu'n troi'n banic llwyr. Teimlwn yn llewyglyd a diymadferth wrth i'r llu dynion or-gyffroi cyn i'r chwiban ganu.

Wedi llwyddo i ddod yn rhydd a mynd trwy'r clwydi, gwelwn 'y bliws' ac roedd fy nghoese bach mor wan a chrynedig nes y teimlwn fel 'rhech wlyb' ys dywedwn ffordd acw. Prin fedrwn i gerdded at y cae ar ôl ffasiwn wasgfa - mae wasgfa gan ddyn yn iawn yn ei le, ond nid gan gannoedd ar yr un pryd! Ar ôl llwyddo i adfer fy 'sgyfaint a chyrraedd at y cae, y cwbwl fedrwn weld oedd tri milwr bychan yn rhodio'r maes, a phedwar crys coch bell yn y gwaelodion!

Wel, sôn am siom; fedrwn i ddiodde dim mwy, doedd yr holl wthio ddim gwerth y drafferth yn y diwedd. Pa gysur ydi bod ynghanol y glaw am awr a hanner yn gweld dim ond pen-olau dynion o'm blaen a bagio'u carthion glyb nhw ar y llawr! Mi drois ar fy sowdwl, allan â fi heibio'r porthoriaid a'r heddlu, a phawb yn edrych arnai'n geg agored yn mynd o'r cae cyn i'r gêm gychwyn!!!

Ond ys dywed y Sais "enough is enough" a "never again" y mentra i i Barc yr Arfau. Mi gefnogai fy ngwlad, a chrïo drosti weithie ac edrych ar bob gêm ar y teledu lle mae posib gweld y milwyr bach o'r cryse cochion i gyd. Diolch am foethusrwydd cynnes, sych a digon o le i anadlu yng Nghlwb Ifor Bach!

Ac erbyn meddwl, dwi yr un farn yn union â'r rheiny ddywedodd ar y Stondin nad ydi rygbi'n gêm nac yn le i ferched - ond ein bod yn medru cefnogi'n gwlad gystal os nad gwell na run dyn!

# Gŵyl Feithrin 1988

Cynhelir Gŵyl Feithrin Mudiad Ysgolion Meithrin yn ystod wythnos gynta mis Mai, ac eleni bydd hi'n Wyl arbennig iawn, gan fod y Mudiad newydd lansio apêl i godi £50,000 yn ystod y flwyddyn nesaf. Pwrpas codi'r arian yw prynu adeilad yng Nghaerdydd fel swyddfa parhaol i'r Mudiad. Yn 1989 bydd y Mudiad yn dod i oed, a braf fyddai gweld cartref ganddo yn y brifddinas.

Byddwn yn hysbysebu gwaith y Mudiad yn ystod y Ffair Hen Galan Mai yn Sain Ffagan dros benwythnos Gŵyl y Banc, sef o Ebrill 29ain tan Fai 2. Bydd stondin gennym yno, ac hefyd byddwn yn gyfrifol am y Feithrinfa. Felly, os ydych am grwydro am awr neu ddwy heb boeni am y plantos lleiaf (hyd at 5 oed) dewch â nhw i'r Feithrinfa lle cânt chwarae'n hapus.

Ar ddiwedd wythnos gynta Mai, sef Sadwrn Mai 7fed, cynhelir yr orymdaith draddodiadol drwy strydoedd Caerdydd, pan fydd cylchoedd y ddinas a'r Fro yn tynnu sylw'r cyhoedd yn eu gwisgoedd lliwgar. Byddwn yn cychwyn o'r Amgueddfa am 10.30am, ac am 11 cynhelir sesiwn o ganu ar gyfer y plant yng nghapel y Tabernacl, o dan arweiniad sicr Iwan Guy, gyda Delyth Evans yn cyfeilio. Cawsom amser ardderchog llynedd yng nghwmni'r ddau, a'r plant wrth eu bodd yn canu'r hwiangerddi buon nhw'n dysgu yn y Cylchoedd. Eleni bydd Derec Brown yno hefyd (heb ei Racaracwyr) i ddifyrru'r plant bach.

Drwy gydol y dydd bydd carafan Apêl y Mudiad mewn lle amlwg yn yr Ais, yn ymyl Mothercare. Mae hi'n ddeniadol dros ben, wedi'i phaentio yn arbennig ar gyfer yr achlysur; ac erbyn iddi gyrraedd Caerdydd, bydd hi wedi bod ymhob cwr o Gymru yn codi arian tuag at yr Apêl. Cawn gwmni Mabon a Mabli yno hefyd, a gwerthir nwyddau drwy'r dydd; yn ogystal â chynnal cystadlaethau tu allan i'r garafan. Cofiwch ddod draw i'n cefnogi yn ystod y dydd, er mwyn i ni gael Gŵyl Feithrin i'w chofio yn 1988.

DATGANIAD I'R WASG

gan RADIO'R DDRAIG GOCH

Cyhoeddwyd record gyntaf Meic Stevens yn y Gymraeg ugain mlynedd yn ôl ym mis Mai 1968 ("Yr Eryr a'r Golomen").

I ddathlu'r achlysur hanesyddol hwn, bydd pedair rhaglen arbennig yn cael eu darlledu yn ystod "Cadw Cwmni" ar Radio'r Ddraig Goch drwy gydol mis Mai. Bydd thema arbennig i bob un o'r rhaglenni awr i ddangos dawn ac athrylith y canwr a'r cyfansoddwr dros yr ugain mlynedd diwethaf. Darlledir y rhaglenni o gerddoriaeth Meic Stevens yn ystod ail hanner "Cadw Cwmni", gyda'r un gyntaf ar Fai 8fed. Y cyflwynydd yw Derec Brown.

Darlledir "Cadw Cwmni" rhwng 9 ac 11 o'r gloch bob nos Sul ar Radio'r Ddraig Goch, sy'n gwasanaethu De-Ddwyrain Cymru ar 97.4 neu 103.2 VHF, a 221 neu 230 ar y donfedd ganol.


## Cynorthwy-ydd Personol/ Ysgrifenyddes/ydd

### I gadeirydd HTV Cymru

Mae Mr. Idwal Symonds, Cadeirydd HTV Cymru, yn chwilio am Gynorthwy-ydd Personol/ Ysgrifenyddes/ydd i weithio yng nghanolfan y Cwmni yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â chymwysterau ysgrifenyddol o'r radd flaenaf gyda llawfer. Gofynnir hefyd am bersonoliaeth ac ymddangosiad da gan fod y Cadeirydd yn chwilio am berson sydd nid yn unig yn medru gweinyddu ond sydd hefyd yn abl i'w gynorthwyo gyda'i waith cymdeithasol a chyhoeddus ar ran y Cwmni. Yn naturiol, disgwylir i'r person a ddewisir fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r oriau swyddogol o 9.30 a.m. i 6 p.m., ond mae'n bosibl trwy gytundeb i'r unigolyn weithio oriau llai, er enghraifft rhwng 10 a.m. a 4 p.m. Hefyd bydd ambell i weithgaredd cymdeithasol gyda'r nos. Mae'r cyflog am wythnos lawn yn £180.

Dylai ymgeiswyr cymwys anfod am ffurflen gais gan amgau amlen gyfeiriedig a nodi y cyfeirnod DI/673 at y Rheolwr Personel, HTV Cyfyngedig, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd, CF5 6XJ.

Yr ydym yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac yn croesawu pob cais heb ystyried na rhyw, cefndir ethnig, anabledd na statws priodasol.

HTV


# EIRLYS



Bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Dinesydd bod y gantores Eirlys Parri a'r teulu am ymgartrefu yng Nghaerdydd, a hynny yn 89 St John's Crescent, Yr Eglwysnewydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu a dod i'w hadnabod. Y mae caset newydd o Eirlys yn canu wedi dod allan o dan y teitl "Ffordd y Ffair a 15 cân arall", a honno o dan label Sain.

Cyhoeddir Eirlys - "Ffordd y Ffair a 15 cân arall" i gyd fynd â'i chyfres deledu newydd sbon ar S4C. Mae'r caset yn cynnwys nifer o ganeuon newydd ar gyfer Eirlys yn ogystal â chaneuon rhyngwladol.

# Eisteddfod Casnewydd

Mae'r newyddion o Eisteddfod Casnewydd yn newyddion da. Un o'r pethau mwyaf trawiadol ydyw polisi newydd cyngor Gwent. Maent wedi newid ei bolisi yn hollol ac yn awr yn cefnogi yr Eisteddfod yn ariannol a gyda gwasanaethau. Fe fydd y cydweithred-iad newydd yn werthfawr i ni.

Rhai yn dadlau y gallent fod yn fwy hael ac yn y blaen. Ond nid y cyfanswm o arian ydyw'r peth mwyaf pwysig. Y mae cefnogwyr yr Eistedd-fod yng Ngwent yn gweld y datblygiad yma yn wahanol - fel troad hanesyddol sy'n ymddangos er enghraifft, trwy agweddau swyddogion y cyngor. R'ydym yn canfod y polisi newydd fel agoriad o ddrws sydd wedi bod yn gaeëdig yn y gorffenol ac r'ydym yn mawr obeithio bydd cyngor Gwent yn cefnogi'r Eisteddfod bob blwyddyn yn y dyfodol.

Newyddion da o gyngor Morgannwg Ganol hefyd. Yn sicr mae penderfyniad Gwent wedi cynorthwyo Morgannwg Ganol i ail-feddwl am ei perthynas â'r Brifwyl. Pawb yn hapus iawn gyda'r ffaith bod pob cyngor Sir yng Nghymru yn cefnogi'r Eisteddfod.


Mae pwyllgor gwaith Casnewydd a Chyngor yr Eisteddfod yn gwneud ymdrechion mawr i ddenu bobl digymr-aeg i'r Ŵyl. Ein pwrpas yw helpu nhw i ddeall yr Eisteddfod ac i ddilyn y digwyddiadau ar y maes ac yn y pafiliwn.

R'ydym yn cynllunio i ddarparu llawer mwy o beiriannau cyfieithu nag yn y gorffenol, ac i ehangu cyfraniad y gwasanaeth i gynnwys digwyddiadau ar y maes ac nid yn y pafiliwn yn unig. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys sylweb-aeth ar ddigwyddiadau diddorol y dydd, ychydig am gyfundrefn yr Eisteddfod ac yn y blaen, ond wrth gwrs yn cadw'r gwasanaeth traddodiadol o'r llwyfan.

Mae cynlluniau hefyd i gyhoeddi llyfrynnau a phamffledi dwyieithog di-dâl i helpu eisteddfodwyr newydd i ddeall yr Ŵyl ac i wybod beth a allent wneud a gweld ar faes yr Eisteddfod.

Yn fyr, r'ydym yn gwneud ymdrech fawr i bontio'r bwlch rhwng y digymraeg a'r Ŵyl - syniad pwysig iawn yn ein llygaid ni.

Dr J M Hughes



Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).


# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES
Bydd hwn yn fis cymysglyd iawn i chi pan fydd pobl yn dueddol o'ch cam-ddeall. Bydd hen atgofion o'r gorffennol yn debygol o'ch drysu. Rhybuddiwch eich cyfeillion a'ch cydweithwyr i beidio â disgwyl gormod gennych am y tro, fe ddaw pethau'n well maes o law. Cadwch draw ac enciliwch am gyfnod. A peidiwch da chi â cholli'ch tymer dros tipyn o dâp coch.

TAURUS
Mi fyddwch chi braidd yn styfnig y mis hwn ac yn benderfynol o sefyll eich tir yn wyneb pawb a phopeth. Mae'n bosib y byddwch chi'n paratoi ar gyfer pennod newydd yn eich bywyd. Thâl hi ddim i chi lynnu wrth yr un hen arferion yn dragywydd. Rhaid trefnu a pharatoi, a mi fyddwch chi'n siwr o fwynhau cynllunio ar gyfer y dyfodol ar ôl derbyn fod newidiadau i fod.

GEMINI
Mi fyddwch chi'n llawn syniadau newydd a chwildroadol y mis hwn, ac yn awyddus iawn i rannu'ch disgleir-deb gyda phawb o'ch cwmpas, a pham lai, fe all eraill elwa llawer wrth wrando arnoch chi nawr. Mae digon o ddiwgwyddiadau cyffrous ac ysbrydol-edig yn debygol o ddigwydd i chi'r haf yma. Mwynhewch, mae hi wedi bod yn hen aeaf hir a diflas!

CANCER
Hen fis bach eitha diflas rwy'n ofni, efallai byddwch yn ffarwelio â rhywun annwyl. Cofiwch bod amser yn gwella pob briw. Erbyn y 15 fed o'r mis efallai y gwireddir un o'ch hoff ddymuniadau. Nawr yw'r amser i gynllunio'n drylwyr ar gyfer y dyfodol. Ceisiwch gymdeithasu ychydig. Thâl hi ddim i chi encilio. Mae angen cwmni pobol arnoch chi nawr. Dylai fod newidiadau yn y gwaith erbyn diwedd y mis,

LEO
Dyma'r mis gorau yn y flwyddyn i ganolbwyntio ar eich gwaith, er bod y planedau'n dueddol o chwarae triciau arnoch chi hefyd. Os am newid cyfeiriad yn eich gyrfa dyma'r mis i wneud hynny. Byddwch yn wyliadd, yn enwedig gyda phobl mewn awdurdod, thâl hi ddim i chi fod yn rodresgar a hollwybodol ar hyn o bryd. Trafodwch eich problemau'n dawel a synhwyrol os am gael eich ffordd eich hun.

VIRGO
Dyma'r mis i ehangu'ch gwybodaeth i ddysgu sgil newydd neu deithio i wledydd pell. Os oes problem yn y cartref, byddai'n well ei drafod yn agored yn hytrach na'i sgubo dan y carped gan obeithio yr aiff i ffwrdd. Tyfu wnaiff e. Efallai y daw ateb i'r broblem o'r gorffennol. Byddwch yn barod am rwystrau yn y cartref, dros symud, neu waith adnewyddu efallai.

LIBRA
Hyd at y 19eg o'r mis mi fydd pob peth yn mynd yn ardderchog, llwyddiant a hapusrwydd ar bob llaw, ond ar ôl y dyddiad hwnnw byddwch yn barod am dipyn y sgytwad yn y gwaith ac yn y cartref, ond daliwch yn sownd a chyn bo hir bydd heddwch yn teyrnasu unwaith eto. Ac mi ddylech gael llwyddiant yn y gwaith. Byddwch yn chwilio am gyffro a newydd-deb diwedd y mis.

SCORPIO
Mae newidiadau ar y ffordd, peidiwch da chi a'u gwrthsefyll nag ymladd yn eu herbyn. Ewch gyda'r newidiadau, ond yn ara deg. Peidiwch â brifo neb yn enwedig chi'ch hunan - yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall. Efallai daw perthynas i ben nawr. Ceisiwch gadw ffrwyn ar eich tymer tan ar ôl y 22ain; mi fyddwch mewn hwyliau llawer gwell wedyn. Cymrwch hoe fach, a mwynhewch!

SAGITTARIUS
Cewch gyfle ardderchog i newid eich byd y mis hwn, peidiwch a'i anwybyddu, chewch chi ddim cystal cyfle am amser hir eto. Mi fyddwch mewn hwyliau optimistaidd iawn yn y gwaith, ac mi fydd gennych beth wmbredd o ynni. Os am newid eich swydd gwnewch hynny nawr, ond peidiwch ag anelu'n rhy uchel, rhag ofn i chi syrthio. Ddiwedd y mis daw cyfle i ddod â phroblem bersonol i ben unwaith ac am byth.

CAPRICORN
O'r diwedd dyma fis ardderchog! Bydd gennych lawer o ynni a hunan hyder, ac mi fyddwch yn greadigol iawn. Dangoswch eich talentau i'r byd! Tua'r 19eg fe allai rhyw anghydfod godi yn y cartref, ceisiwch beidio â cholli'ch tymer cyn clywed y stori i gyd. Ewch am wyliau bach i fwrw blinder y gaeaf, rydych chi'n haeddu egwyl.

AQUARIUS
Mae'n bosib y byddwch chi'n gecrus braidd dros broblem yn y cartref y mis hwn. Fyddai hi ddim yn well gwrando ar eglurhad rhywun arall yn gynta cyn gwylltio? Peidiwch â chweryla gyda neb mewn awdurdod chwaith. Bydd eich sefyllfa ariannol yr un mor ansicr, arian yn diflannu fel dŵr! Daw bywyd yn llawer rhwyddach ar ôl y 19eg, ac mi fyddwch yn siwr o fwynhau bywyd erbyn diwedd y mis.

PISCES
Fe ddylai hwn fod yn fis cymdeithasol iawn i chi. Mae pob math o brofiadau newydd a chyffrous yn eich aros. Bydd y planed Mawr yn symud i'ch arwydd ar y 22ain gan ddod â digon o ynni yn ei sgil, a'r arwydd i sefyll ar eich traed eich hun yn lle bod yn ddibynnol ar bobl eraill. Dyma'r amser gorau i drefnu a chynllunio cwrs eich bywyd.

# Seren Fechan

Daeth llawenydd mawr i un teulu yn yr Eglwysnewydd, sef Chris a Wendy Grace. Eisioes mae ganddynt bedwar o feibion. Ond daeth merch fach i gadw cwmni i Wendy, ond yn ôl yr hanes y mae Dad wedi gwirioni yn fwy na neb. Llongyfarchiadau i chi.

# GWIREDDU BREUDDWYD

Pan oedd **Mollie Davies** yn blentyn, roedd hanesion y Beibl i'w clywed yn rheolaidd ar ei haelwyd. Roedden nhw fel breuddwyd iddi a thyfasant i fod yn rhan o'i byd.
Yna, ar ddiwedd Mawrth eleni, gwireddwyd breuddwyd arall, sef breuddwyd am gael mynd i wlad breuddwydion ei phlentyndod ac ail-fyw rhai o'r profiadau mwyaf gwerthfawr.

### DWY FREUDDWYD

Mae cwblhau breuddwyd yn dipyn o gamp ac nid yw pawb mor ffodus â mi. Fe ddaeth y freuddwyd i ben yr wythnos ddiwethaf a nawr rydwyf yn ymlacio yn Eilat ac mae'n rhaid rhoi pin ar bapur.

Yr oedd yn wyrthiol cael cerdded tir Israel, heblaw am gael cyfle i weld llefydd pwysig sydd yn storiau'r Testament Newydd.

Yn gyntaf fe ddaethom i fyny i'r gogledd i weld Pooh Hanikra, y man olaf cyn croesi i Libanus, ac i lawr o'r fan hon â ni at y Môr Coch a'r Aifft ar yr ochr dde a'r Iorddonen ar y chwith. Fe groeson o TelaViv draw at y Môr Marw a gweld popeth a allwn ar bob trip a wnawn.

Pleserus oedd cael mynd ar ffordd Jerico a hefyd gweld beth oedd ar ôl o'r hen Gesarea a'r amchwaraefa. Y rhan arall a fwynheais oedd mynd o Diberias mewn llong ar Fôr Galilea i Gapernaum. Roedd y môr mor dawel pan gychwynnom ni ond hanner y ffordd ar draws cododd gwynt gwyllt ac roedd pawb yn falch cyrraedd yr ochr draw ac fe gawsom dipyn o drwbwl i gyrraedd y lan yn ddiogel.
Mae hanes y wlad fach yma yn athrist o'r dechrau a hyd yn oed ar ôl 1948 a'i hannibyniaeth mae'r bobl yn ofalus ac yn ofnus dros eu gwlad. Roedd y Rhufeiniaid o gwmpas yn adeg yr Iesu ac mae milwyr ymhobman yma nawr. Mae pob man yn edrych yn llewyrchus ac mae'r bobl wedi gweithio'n galed ac yn dal i wneud. Gobeithio y cân nhw lonydd i lwyddo.

Mae fy nghalon yn llawn hyd at yr ymyl wrth ailfeddwl am siwrnai fwyaf ein gwyliau. Bydd eisiau amser hir ar ôl mynd adre cyn penmderfynu beth oedd pinacl y bererindod oherwydd roedd cymaint i'w gymryd i mewn.

Bethlehem fach wedi tyfu mewn maint dros yr holl flynyddoedd ac yr oedd hyn i'w ddisgwyl. Ni chymerodd ddim o'r mawredd a'r profiadau a gawsom wrth fynd heibio i'r ystabl oedd yn perthyn i'r gwesty lle y cafodd y Mab ei eni.

Roedd Nasareth yn lle prysur ac fe welsom gartref Mair cyn geni'r Crist a'r cartref y tyfodd Ef ynddo gyda'i dad. Joseff, y saer coed. Aeth rhywbeth trwy fy nghalon pan welais ddynion eisiau newid arian ar hyd y strŷd. Ydyn ni rywfaint yn nes ymlaen, tybed?

Ar ein ffordd gwelsom y rhan newydd o Gaersalem ble mae'r Knessett a chawsom gyfle i fynd trwy'r gerddi a'r cylch. Ni welsom tu mewn i'r adeilad am ei fod yn ddydd y Sabath. Buom yn gweld sgroliau'r Môr Marw mewn adeilad oedd wedi cael ei godi'n bwrpasol i'w cadw.

Yr oedd yr hen Gaersalem yn ormod i'w gymryd i mewn mewn dwy awr a hanner am fod cymaint o hanes yn mynd yn ôl am fwy na 2000 o flynyddoedd. Felly, gweld y Deml, Gardd Gethsemane, Mynydd yr Olewydd a'r uchafbwynt i mi oedd cerdded taith y groes a'r gwahanol fannau lle y cafodd y siwrne ei thorri ar ei ffordd i fyny.

Wrth edrych yn ôl hyd yn oed nawr wedi cyn lleied o amser mae'n anodd iawn bod yn siŵr bod archaeolegwyr a'u hanes yn hollol gywir, ond pob parch iddynt.

Rwyf yn fodlon coelio eu bod yn iawn ond mae cornel o'm calon yn meddwl hwyrach fod eu mannau pwysig nhw'n dawelach a heb eglwys nac unrhyw fath o adeilad uwch eu pennau.

Bwyd i'r ysbryd am weddill fy oes.

---

Tristwch i holl ddarllenwyr y Dinesydd oedd clywed ein bod wedi colli Annie Hummphries un oedd yn rhan o fywyd Cymraeg Caerdydd ers blynyddoedd maith. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Gwen ac Iwan, Heledd, Nia ac Aled a'r teulu i gyd. Bydd chwith ar ei hôl.


**YN EISIAU**

Rhywun i gynorthwyo gyda gofalu am 3 o blant o dan 5 oed, ac ychydig o waith tŷ, am dri bore'r wythnos o fis Mehefin ymlaen. Tâl i'w drafod.

Ffôn Caerdydd 32284.
(Ardal Treganna)


Dylid anfon deunydd rhifyn Mehefin at y Golygydd, Coed y Pry, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed erbyn Mai 18.


HYSBYSEBWCH YN

Y DINESYDD

AM FANYLION A THALERAU CYSYLLTER A
TONY COUCH
2 CRYSTAL GLEN
Y WAUN
CAERDYDD

FFON: CAERDYDD 753625 neu 615821 est 344




# T. Glynne

"Un o'r anwylaf o blant dynion...un o'r caredicaf, yn ymylu ar afradloned" oedd dau o'r teyrngedau a ddilynodd y cardd a'r darlledwr, T. Glynne Davies ar Nos Sul, Ebrill 10fed. Teyrngedau sydd yn crisialu pob dim sydd yna i ddweud am y gŵr annwyl, caredig, a anwyd drigain a dwy o flynyddoedd yn ôl yn Llanrwst, cyn troedio tir Cymru o Ddyffryn Conwy i bwll glo'r Oakdale ym Mynwy, o swyddfa'r Cambrian News yn Aberystwyth i Gaerdydd, ac o Gaerdydd i Fangor, cyn trui eto am stiwdio'r BBC yn Abertawe, ac yno ar ddechre'r wythdegau y ces i'r fraint o gychwyn partneriaeth bleserus gyda bardd 'Adfeilion'. Yn gynta, gyda'i steil unigryw yn y gyfres ar ôl cyfres o 'Ar Dro', a chyfle i mi wylio'r meistr wrthi yn saernio sgript radio yn feistrolgar, gyda phob gair yn derbyn ei sylw llawn, a'r saernio celfydd yn gwneud i'r cyfan swnio mor naturiol o syml wrth i'r hyfrydlais greu'r darluniau radio.

Ar y pedwerydd ar ddeg o Ebrill, mi ges y fraint o'i hebrwng yn ôl i'w hoff Lanrwst ar 'i daith ola, a rhannu gyda Mair, ei bartner:

> "Cymeraf y wên a ddiferaist ti
> I olchi'n lân hen ffec fy nghalon i",

a'r pedwar mab, Gareth, Aled, Geraint ac Owen mewn gwasanaeth a oedd yn deyrnged, yn dristwch ac yn llawn gorfoledd ar yr un pryd.

> "Ebrill yw mis y blingo
> wedi i rewynt Mawrth
> osgoi'r cnawd a chnoi'r esgyrn
> treisgar yw dafnau cynnes y
> cymylau
> a'r had yn sgwatio fel hipis
> ar y pridd fel ar y concrid."
> (Wynebau)

Ydy, mae gŵr y procio a'r pryfocio bellach rhywle 'Ar Dro'. Diolch am gael rhannu ychydig o gamau ar y siwrne.

Lyn Jones

# Gwanwyn Creulon

Gwanwyn trwm fu hwn i ni Gymry Cymraeg - yn llwm o golledion, fel y tystia'r teyrngedau yn y rhifyn hwn. Collwyd Euros Bowen, Ernest Roberts, Emrys Bennett Owen a Morfydd Mason Lewis. Pob un ohonynt yn adlewyrchu'r bywyd Cymraeg dros gyfnod maith. Daeth y newydd trist am golli Morfydd Mason Lewis fel y mae'r papur yn mynd i'w wely.

Ond carem gofnodi'r ffaith gyda chwithdod gan gofio am ei chyfraniad i 'Docyn Wythnos' yn ystod yr Eisteddfod, a melys yr atgof am ei chyflwyno hi ac Emrys Cleaver o 'Cenwch i'm yr hen Ganiadau' o Neuadd Cory. Mieri lle bu mawredd yw hanes y neuadd honno erbyn hyn. Ydi, y mae cyfnod yn dod i ben.

Bu farw'r awdur W. H. Boore yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ar 23 Mawrth. Roedd yn 83 oed.

Ganwyd Walter Boore yng Nghaerdydd, o'i dad O Awstralia a'i fam o Sain Ffagan, a chafodd ei addysg yn Canton Secondary School. Wedi dechrau gweithio fel 'office boy', daeth ymhen amser yn berchennog ffatri yn Birmingham.

Yn 50 oed aeth yn awdur llawn amser. Cyhoeddodd saith nofel, dwy gyfrol o farddoniaeth, a chasgliad o straeon byrion, a bu'n ddarlledwr cyson. Troswyd ei waith i nifer o ieithoedd, a'i nofel dditectif 'The Valley and the Shadow' i'r Gymraeg, o dan y teitl 'Cysgod yn y Dyffryn'. Dewiswyd ei lyfr athronyddol 'First Light: A Study in Belief' fel un o lyfrau'r flwyddyn gan yr Observer. Roedd yn un o aelodau cychwynnol yr Academi Gymreig.

## W.H. Boore



Walter Boore oedd aelod hynaf Eglwys Salem, Canton. 77 o flynyddoedd yn ôl, ac yntau'n grwt bach yn llaw ei fam, cymerodd ran yn yr orymdaith enwog o'r hen Salem yn Albert Street i'r Salem newydd yn Market Street, ac mae'n debyg mai ef oedd yr olaf i gofio'r achlysur hwnnw. Mae'n gadael gwraig, Bronwen, tri phlentyn a saith o wyrion ac wyresau.

## Lyn Howell 1906-1988

Brodor o Aberdulais oedd Mr Lyn Howell ond bu yn rhan o fywyd Cymraeg Caerdydd am hanner canrif a mwy. Cafodd yrfa wrth ei fodd gyda phob swydd yn gyfle iddo weithio er lles pobl eraill. Bu'n Ysgrifennydd Cyngor y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y tri-degau, yn Swyddog Lles yn ystod y rhyfel a gweithiodd ymhlith tramorwyr hyd at 1949 pan dderbyniodd swydd fel Ysgrifennydd cyntaf y Bwrdd Croeso. Datblygodd waith a dylanwad y Bwrdd yn ystod ugain mlynedd ei arweiniad a gosodwyd seiliau cadarn i'r diwydiant ymwelwyr. Yn dilyn ei ymddeoliad manteisiwyd ar ei brofiad drwy ei apwyntio i gorff rheoli'r Bwrdd Ystadudol newydd.

Ond er cymaint ei ymroddiad a'i deyrngarwch i'w waith beunyddiol, yr oedd ei galon yng ngwaith ei Eglwys. Bu'n arweinydd ieuenctid brwd, yn athro dylanwadol ac yn flaenor ffyddlon. Ymdaflodd i waith Henaduriaeth a Chyfundeb gan weithredu fel Trysorydd yr Eglwys Bresbyteraidd ac fe'i ddyrchafwyd i Gadair Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn 1975. Yr oedd yn Drysorydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru a mawr oedd ei werthfawrogiad o'r haelioni a gyfrannodd £150,000 tuag at Apêl y Sahel.

Cydymdeimlwn yn dyner gyda Mrs Nan Howell a Gareth yn eu hiraeth.

*E. Lewis*

## Doc

Yn sydyn, mewn amgylchiadau trist, ar 13eg o Ebrill bu farw Derrick Wynne Jones - ond ychydig a'i adnabu wrth ei enw iawn - Doc oedd i bawb. Fe'i bedyddiwyd felly gan ei athro ysgol oherwydd ei 'sgrifen traed brain.

Roedd yn gymeriad unigryw a gellid sgwennu cyfrolau am ei bersonoliaeth, ei ddywediadau a'i draeon trwstan - anhygoel. Roedd yn barod yn gymeriad chwedlonol erbyn i mi ei gyfarfod gynta fel cyd-fyfyriwr yn Ysgol Feddygol Cymru ganol y pumdegau. Er yn fain o gorff bryd hynny, roedd ganddo ysgwyddau anferth a chyflymdra yn ei ergyd, nes ein bod i gyd a pharchedig ofn ei 'wad' fel y'i galwai yn nhafodiaith Penygroes.

Roedd yn focsiwr gwirioneddol dda. Enillodd bencampwriaethau'r colegau ar awyrlu wedi hynny - a diolch i'w 'wad', byr iawn oedd llawer o'i ornestau! Ond nid oedd o natur ymosodol - hynny yw nid nes deuai'r galw i achub cam neu amddiffyn cyfaill. Fwy nag unwaith gorfu bwli mawr cyhyrog dalu'r pris am gamddehongli boneddigeiddrwydd a maint Doc!

Roedd ganddo lais tenor gwir eithriadol, a'i wnaeth, fel y gellir tybio, ar ben ei ddoniau eraill, yn dipyn o eilun - yn enwedig i ferched. Tra y byddem ni feidrolion yn crafu i gyrraedd y nodau uchel, â'i llais Doc yn gryfach a chyfoethocach wrth basio C uchaf. Ond ni ddysgodd ddarllen cerddoriaeth, ac oherwydd hyn a'r diffyg dyfalbarhad a'i nodweddai - ac a oedd i danseilio cymaint ar ei fywyd - gwastraffwyd y mwyaf efallai o'i dalentau.

Roedd yn un o'r cynrhychiolwyr mwyaf llwyddianus a'r lleia confensiynnol a fu gan gwmni 'Geigy' erioed. Yn ei diriogaeth ef yn amal roedd y gwerthiant cyffuriau uchaf ym Mhrydain - a hynny ar waethaf ei ddiffyg trefn. Ei ddawn brin gyda phobol oedd allwedd ei lwyddiant a hefyd ei bersonoliaeth.



Ymhyfrydai mewn cwmniaeth a pherthynas - cosaid pethau ac uchelgais yn golygu dim iddo. Roedd yn fwy na rhannol ddall i drefn a chonfensiwn - a gallai fod yn groendew ac eitha anystyriol o'r herwydd. Doedd Doc ddim yn gweld pethe yn union fel pawb arall. Roedd fel petai'n gweld heibio i'r mân ystyriaethau a boenai'r gweddill ohonom, i'r gwirioneddau dyfnach. Roedd ganddo athroniaeth dreiddgar - a hyn oedd yr allwedd i'w hiwmor ddinystydd.

Gŵyr pawb am ei gyfeillgarwch â Carwyn - ond roedd yn fwy na chyfaill iddo - roedd Doc yn arwr i Carwyn. Gwelai ynddo arwriaeth ac athrylith y pentrefi glo carreg - ac efallai gwelai wedi e'i gostrelu ynddo drasiedi cenedl y Cymry - y doniau llachar a'r addewid coll. Roedd yntau hefyd 'yn un o fois y pentre'.

Dechreuodd ei gaethiwed yn gynnar wedi nifer o siomedigaethau, ac fe'i dadfeiliodd yn raddol dros y blynyddoedd. Hyn wêl y crintachlyd a'r hunangyfiawn, - ond am ei fod yn rhydd o'r gwendidau sydd gan y gweddill ohonom, yn hytrach, yr oedd iddo arbenigrwydd. I'r llu a'i adnabu y côf am ei ddoniau a'i rinweddau sy'n ffrydio nôl.

Fe'n cyfoethogwyd gan yr enaid prin hwn - dyna pam y cadwodd ei ffrindiau drwy y dyddiau blin.

Gallwn ninnau ddweud fel y gwnaeth Dic Jones am Tydfor ei gyfaill yntau:

Oet yn ail dy wit i neb,
Oet dderyn, oet ddihareb,
Oet ŵr hoff, oet ar wahan,
Oet dyner - oet dy hunan.

Dafydd Huws

# BWTH RUTH



Wel helo, pa hwyl sydd? Newydd gael gwledd - gweld a chlywed Ensemble y Fyddin Goch yn ein neuadd wych yma yng Nghaerdydd - Neuadd Dewi Sant.

Yr agosa bûm i i'r Undeb Sofietaidd oedd hedfan mewn awyren Kuwait Airways o Bangkok i Heathrow via Kuwait fis union cyn yr herwgipiad diweddar 'ma. Ar yr awyren roedd ganddyn nhw sawl map mawr, ar sgrîn deledu, o'r rhan o'r byd roeddan ni'n groesi a'n taith yn cael ei dangos gan lein wen arni - roedd cyfeiriad y daith yn croesi rhannau o Rwsia fawr. Mi deimlais yn agosach at bobl y cyfandir eang hwn pan ges i gyfle i holi criw ar 'Merched yn Bennaf' - rhai wedi byw yn Rwsia a rhai wedi ymweld â Chynhadledd Merched y Byd fu yno llynedd - ein Beryl Hall ni yn eu plith. Mi gynhesais yn fawr at y wlad a'i phobl wrth glywed am eu straeon personol - dyma fuaswn i'n ei alw yn "pontio" ag mae yn ymddangos i mi fod pobl gyffredin yn llwyddo i "bontio" yn well na gwleidyddion!!!?

A 'pontio' miloedd o filltiroedd, a channoedd o flynyddoedd o amheuaeth ag anwybodaeth wnaeth Ensemble y Fyddin Goch y noson o'r blaen - wrth i ni wrando ar ganu unigryw eu côr meibion a gweld dawnsio gosgeiddig, ond eto corfforol a lliwgar y dawnswyr - mi roedd yna sawl cymeriad yn rhan o'r Ensemble ag er na dydi rhywun yn dal llygad y "cymeryn" wrth eistedd yn Bloc D Neuadd Dewi Sant, mae 'na ryw "bontio" yn does? - dwi'n siwr eich bod chi'n deall beth sydd gen i.

Anghofiai byth mo'r unawdydd Alexandre Berznyak ganodd gân y 'gŵr hefo atal deud' - doedd dim rhaid deall y geiriau roedd y perfformiad yn denu chwerthin iach o fewn dwy linell i'r gân ddechre. Gwledd o noson - ond nid y fi ydi'r unig un i ddweud.

Beryl Hall "Mi wnaeth i mi gofio am gyngerdd weles i ym Moscow - yr union fath o beth - dawnsfeydd gwerin syml. Mae gweld y bechgyn yn neidio'n uchel a troi yn yr awyr yn rhoi'r bendro i mi. Llynedd yn y Gynhadledd i Gynulliad Merched y Byd mi weles i gyngerdd yn union yr un fath ond gan blant - ag yr un mor broffesiynnol. Mae'n rhaid i mi ymweld a Rwsia eto cyn hir."

Beti George "Siom ofnadwy na chanwyd 'Hen wlad Fy Nhadau' - gan mod i isio clywed côr y Fyddin Goch yn canu anthem genedlaethol orau'r byd. Yn yr hanner cynta roedd y dawnswyr yn arall-fydol, yr unawdwyr yn siomedig rown i isio lot mwy o'u canu gwerin eu hunain ond roedd yr ail hanner yn odidog a'r tenor yn berffaith!!"

Robin Jones "Fy ymateb cynta - "shell-shocked". Mi roedd yn berfformiad llawn cynnwrf o'r dechre i'r diwedd. Mae'r genod yn 'ffantastic'. O n cwarfod yn bersonol mi weles i eu bod nhw'n bobl hawddgar a mwyn - ag yn awyddus iawn i hybu brawdgarwch."

Gwawr Owen "Gwych, gwefreiddiol a gwledd i'r llygad. Roedd gwên ar fy ngwyneb am dair awr wrth i mi fwynhau'r sioe ore i mi weld erioed. Roedd yna wefr i gyd - o'r gynulleidfa drwodd i'r perfformwyr lliwgar, hynod broffesiynnol."

Marion Arthur "Roedd yna saga adra erstalwm a darlun o dad a mam yn barchus ganol oed yn neidio ac yn gweiddi ac yn cadw reiat fel dau "tini-boper" cyn eu hamser wrth wrando ar Gôr y Fyddin Goch yn Llundain dros hanner can mlynedd yn ôl. A dyma Jane Lloyd Edwards yn dweud yn union yr un stori amdani hi a Huw Lloyd chwarter canrif yn ddiweddarach. Finna ganol Ebrill yn falch mod i wedi cael cyfle i brofi'n ddigamsyniol eu bod nhw'n dweud y gwir - wfft i'r llen haearn a 'Niet' yn amlwg i ganol oed!



GLANTAF - Y MAES CHWARAE

Daeth nifer o anrhydeddau byd chwaraeon i ddisgyblion Ysgol Glantaf yn ystod y misoedd diwethaf.

Cafodd pob un o'r canlynol y cyfle i gynrychioli Cymru yn ei faes arbennig

RYGBI
dan 18 oed Alun Jones(Canolwr)
dan 15 oed Huw Harries(Capten)

HOCI
dan 18 oed Julie Jones(Capten)

NOFIO
Siân Millar
Nicholas Millar

SGIO
Gruffydd Leader
Osian Leader
Arwel Jones

TENIS
Julie Sinkins
Siân Williams
David Barker

GYMNASTEG
Andrew Dobbs

TRAWS GWLAD
Guto Eames

BADMINTON
Paul Neale

FFENSIO
Huw Williams

Llongyfarchiadau i bob un! Clod arbennig i'r athrawon sy'n gyfrifol am Chwaraeon yn yr ysgol - Peter Manning, Keri Evans, Brenda Goodfellow a Gaynor Jones


SBLAT!

**GWEITHDY IEUENCTID HTV**

Cofio "SBLAT" y llynedd?
"Ydyn, a dyna lot o hen Sblat oedd e' hefyd!" dychmygaf yr ateb cwrtais.

Wel, os ydych chi o dan 16 ac yn meddwl y gallwch chi wneud yn well na Gweithdy Ieuenctid 1987, ysgrifennwch at y cyfeiriad isod, ac efallai y cewch chi gyfle.

**Gweithdy Ieuenctid HTV**
**HTV**
**Y Ganolfan Deledu**
**Croes Cwrlwys**
**CAERDYDD**
**CF5 6XJ**
**Ffôn (0222) 590142**


Ar fore Llun y Pasg yng Nghapel Minny Street priodwyd Eilonwy Jenkins (dirprwy yn Ysgol Llanhari) a Mr T. J. Rhys Jones. Ymunwn a'u llu o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r ddau.

Dymunwn adferiad buan i Mr Alwyn Evans o Wenfô a gafodd law driniaeth yn ysbyty Pentwyn yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Derek Griffiths, athro Bywydeg yn Ysgol Rhydfelen bu'n rhedeg ym Marathon Llundain ym mis Ebrill.

# Arddangosfeydd Mai

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Y Prif Adeilad, Parc Cathays

13 Mai - 4 Mehefin
CYNLLUNIO'R CYFRIFON
Arrdangosfa deithiol o bosteri i ddathlu penblwydd Cynilion Cenedlaethol yn 125 oed.

CAMPWEITHIAU O'R AMGUEDDFA
(yn parhau)
Rhai o ddarluniau gwychaf yr Amgueddfa gan gynnwys ymhlith eraill, gweithiau Claude, Canaletto, Wilson, Manet, Renoir, Van Gogh, Monet, Cezanne a Rodin.

Tŷ Turner

Heol Plymouth, Penarth

PEINTIADAU CYFOES
(yn parhau)
Oherwydd prinder lle yn y brif adeilad defnyddio Tŷ Turner i arddangos eraill o gasgliad yr Amgueddfa Genedlaethol - Augustus a Gwen John, Ceri Richards, Cedric Morris, Kyffin Williams, Josef Herman a Harold Gilman.

Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan

18 - 21 Mai
CREFFTWYR WRTH EU GWAITH
John Jones, hyfforddwyd yng Ngholeg Celf Caerdydd a brodor o'r Rhondda. Gwehydd a chynllunydd wrth ei grefft.

Oriel

Heol Siarl

7 - 28 Mai
PEINTIADAU MAWR - GRAHAM DEAN
Artist yn defnyddio ffordd newydd o ail-ddefnyddio'r cyfrwng dyfrlliw.

CWMNI'R GADWYN

CYMDEITHAS DDRAMA RADUR

Mae angen actorion gogyfer a pherfformiad o Amadeus Mozart yn Eisteddfod Casnewydd fis Awst.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Emyr Edwards, Caerdydd 843855.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**


## Peintiwr Enwog a fu yn y Parthau Hyn

(Nodyn ar Alfred Sisley 1839-1899)

Bydd yn hysbys i lawer bod y person hwn, cyd-fyfyriwr a chyfaill i Renoir a Monet, yn aelod blaenllaw o'r ysgol Argraffiadol, ac heb fod ymhell iawn ar ôl y rheng flaenaf ohonynt yn ei gyflawniadau. Ceir cryn dipyn o sôn amdano a nifer o enghreifftiau o' waith yn amryw o'r llyfrau sydd yn delio â'r cyfnod, fel un Phoebe Pool, 'Impressionism' (Thames & Hudson, yn y gyfres World of Art, ail-argraffiad 1985).

Fe ŵyr llawer hefyd i'r Ffrancwr adnabyddus yma dreulio rai misoedd, tua diwedd ei fywyd yn 1897, ym Mhenarth ac Abertawe. Dywed y llyfryn bach 'Art in Wales' (Jarrold Regional Guide Bk 8) iddo aros yn gyntaf ym Mhenarth ac yna fynd i Westy Langland ar benrhyn Gwyr. Dyfynnir o un o'r llythyrau a ysgrifennodd Sisley o Benarth at gyfaill yn Ffrainc yn dweud bod "y wlad yn brydferth, a'r porthladd, â'i longau mawr yn mynd i mewn ac allan o Gaerdydd, yn odidog". Ceir un o ddarluniau'r peintiwr (Cardiff Harbour) ar ochr arall y tudalen. Yna dywed y golygyddion "The many landscapes he painted of the coast around Penarth and Langland constitute his swan-song as a painter; he died in Paris early in 1899". Fe ymddengys, yn ôl rhai awdurdodau beth bynnag, na werthfawrogwyd yr harddwch tawel sydd yn ei waith gan lawer o'r cyhoedd yn ystod ei oes.

Daeth llyfryn bach arall i'm meddiant yn ddiweddar (yn llyfrfa St. Martin's in the Fields), sef un ar Renoir gan David Thomas (nai i'r bardd Edward Thomas), yn y gyfres 'Medici Art Books'. Ymysg amryw o weithiau enwog Renoir, rhoddir darlun swynol iawn o Sisley a'i wraig yn 1868. Fe welir y darlun heyfd yn llyfr Phoebe Pool a enwyd uchod (t 51). Y mae'n ddarlun swynol iawn, "not without tenderness" ys dywed David Thomas a'r gŵr ifanc tywyll ei fryd yn edrych bron mor drwsiadus a'i wraig.

Ceir saith o ddarluniau Sisley yn 'The Impressionists Diary', 1988. Yn y llyfr hw fe gymerir fel prif thema am y flwyddyn hon: 'The Impressionists and Water', a haerir bod gwaith Monet a Renoir, Manet, Sisley ac eraill â'r math yna o genfdir iddo, wedi agor gorwelion newydd, ac nid yn unig yn Ffrainc. Mae'n ymddangos y gallai amryw o beintwyr yr ysgol hon ddweud "Rwy'n tynnu tuag ochor y dŵr", ond mewn ystyr braidd yn wahanol i'r emynydd!

Yn ddiweddar deuthum ar draws llyfr ardderchog Eric Rowan 'Art in Wales' (An Ill History, 1850-1980). Y mae Rowan yn sôn am ymweliad Sisley â Morgannwg yn 1987 fel uchafbwynt y mudiad Argraffiadol yn ei berthynas â Chymru, ac yn manylu ar nodweddion gwaith y peintiwr yn y cyfnod hwn. Y mae'n debyg ei fod wedi ei gyfareddu gan Benarth a'r cylch, ac yno y gwnaeth bump o ddarluniau, ac yn nes ymlaen dri-ar-ddeg yn ardal Bae Langland. Fe ddywedir bod ei gynhyrchion yn Ne Cymru ymysg ei weithiau olaf o bwys, gan ei fod eisoes yn dechrau dioddef gan effeithiau cancr.

Rhydd Rowan i ni dri o ddarluniau Sisley : (1) Lôn Llongau Caerdydd a Pier Penarth (2) Sianel Brydeinig, effaith hwyrddydd (sef llun o'r sianel o Benarth, yn edrych i'r gorllewin tua ynys Sully (3) Craig Storr, Bae Langland. Dyma weithiau cyntaf ac olaf Sisley, meddai Rowan, â'r môr yn destun iddynt.

Y mae gwreiddiol y llun cyntaf yn Reims, yr ail yn Ohio, a'r trydydd yn Rouen.

D. R. Griffith

## Alfred Sisley

(nodiadau gan y Parch D. R. Griffith)

Diolch i'r Parch D. R. Griffith am anfon y nodiadau hyn i mi, yn sôn am ymweliad y peintiwr Sisley â Phenarth. O dras Seisnig, danfonwyd ef i Loegr yn 1856-7 i wella ei Saesneg. Daeth eto yn 1871 yn ystod rhyfel Ffrainc/ Prwsia, pryd y peintiodd yn bennaf yn Llundain. Yna ym 1879 daeth ar daith i Dde Cymru. Y mae Mr D. R. Griffith wedi dechrau ymddiddori yn y maes yma wedi iddo ymddeol o'i swydd fel Darlithydd mewn Astudiaethau Beiblaidd ym Mhrifysgol Caerdydd yn 1979 - cyfle, chwedl ef ei hunan i 'werthfawrogi rhywbeth heblaw Diwinyddiaeth!'

Mi welais i rhai o'r gweithiau y cyfeirir atynt pan eu dangoswyd yn Oriel Hayward yn 1973 fel rhan o ddathliadau Fanfare for Europe. Dangoswyd deuddeg o'i ddarluniau; pump ohonynt o Dde Cymru, ond yn rhyfedd iawn mi ddangoswyd dim o'r rhain yn Arddangosfa'r Academi Frenhinol yn 1974 i ddathlu canmlwyddiant asrddangosfa gyntaf yr Argraffiadwyr.

Dyma'r rhai a ddangoswyd yn 1973 -

Lôn Llongau Caerdydd a Phenarth (olew)

Sianel Brydeinig, effaith hwyrddydd (olew)

Sianel Brydeinig, effaith hwyrddydd (sialc lliw)

Clogwyni Penarth (olew)

Bae Langland, bore (olew)

Y mae'r cyntaf mewn dwylo preifat, a'r lleill yn olynol - Musée Denis, Reims; Coleg Oberlin, Ohio; Musée Petit Palais, Paris; Kimstmuseum, Bern.

Seiriol Davies


Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a derbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru.

# TRADDODIADAU CALAN MAI YNG NGHYMRU

Arbenigrwydd Calan Mai gynt oedd mai ef, yn ôl yr hen gyfrif Celtaidd, ydoedd diwrnod cyntaf yr haf. Yn naturiol, ymysg pobl yn dibynnu'n flynyddol ac yn drwm ar gynnyrch y ddaear, yr oedd dyfodiad y tymor yn destun dathlu. Dyma hefyd oedd diwrnod cychwyn ar adloniant tymhorol y "twmpath chwarae", lle câi pawb gyfle i ymuno mewn chwaraeon cystadleuol ac yn enwedig ddawnsio, yn yr awyr agored.

Yn ôl coel draddodiadol yr oedd Noswyl Fai yn un o'r tair noson yn y flwyddyn pan fyddai grymoedd goruwchnaturiol ac ysbrydion y meirw ar gerdded. Fel mewn gwledydd eraill cyneuid coelcerthi ar y noson hon, ac arferid neidio drwy'r fflamau neu yrru anifeiliaid drwy'r tân i sicrhau ffyniant a chadwedigaeth rhag afiechyd. Defodau eraill ar yr un noson oedd proffwydo ynglŷn â chariadon, ac addurno'r tu allan i ffenestri a drysau â phlanhigion a blodau.

I Lawer o bobl, yn enwedig yng ngogledd Cymru, cychwynni Calan Mai ei hunan yn oriau mân y bore pan gaent eu deffro gan sain dynion - a bechgyn, efallai, wrth y drws yn canu carolau Mai (neu garolau haf).

Yr oedd i ddawnsio, wrth gwrs, ei le hanfodol ar ddiwrnod o ddathlu. Canolbwynt i hwn yn neheudir Cymru oedd "y fedwen haf", y pawl pren y ceid y ddawnsio o'i amgylch ar ôl ei addurno â phaent a rhubanau a blodau ac yna ei osod yn seremonïol i sefyll. (Ar Galan Mai y'i codid mewn ambell le, ond Noswyl Ifan - ynghanol haf - oedd yr adeg briodol ym Morgannwg).

Yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn ôl pob golwg, braidd yn wahanol oedd y traddodiad. Nid oes sôn am bawl haf yno, ond ar Galan Mai fe ddôi'r "dawnswyr ha'" ar grwydr. Dawnswyr morys oedd y rhain: criw bychan o ddynion, fel arfer mewn crysau gwynion wedi eu haddurno â rhubanau a blodau , ac yn cynnwys yn eu plith ddau gymeriad digri y Cadi Ha a'r Ffŵl. Cariai un o'r rheini y "gangen ha" a honno wedi ei gwisgo â gwrthrychau arian neu â rhubanau lliwgar.

Hyd yn oed erbyn ail hanner y ddeunawfed ganrif yr oedd canu carolau Mai yn darfod o'r tir, a gellir dweud i'r cyfan ymron o'r traddodiadau eraill uchod ddiflannu yn ystod y ganrif o'r blaen.

(Addaswyd y rhan fwyaf o'r ysgrif hon o'r gyfrol <u>Welsh Folk Customs</u> gan Trefor M. Owen)

D. Roy Saer
Amgueddfa Werin Cymru

---

Y TABERNACL
CAPEL Y BEDYDDWYR, CAERDYDD

Trefn yr oedfaon bob dydd Sul tan fis Medi, 1988.

10.45 a.m. Oedfa'r Bore ac Ysgol Sul

6.00 p.m. Oedfa'r Hwyr

Croeso Cynnes i Bawb

# GWYL IFAN 1988

Eleni mae Gwyl Ifan, yr Wyl Ddawnsio Gwerin mwy o'i bath yng Nghymru, yn dathlu ei deuddegfed penblwydd, ac yn torri gyda thraddodiad.

Ar ol llwyddiant ysgubol codi'r Pawl Haf y llynedd yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, fe ddychwelwn eto eleni ar ddiwedd teithiau dydd Sadwrn, Mehefin 18fed. Felly mae tipyn o newid yn yr Amserlen draddodiadol. Eleni, hefyd, fe fyddwn yn dychwelyd i Gastell Caerffili ar ol absenoldeb o sawl blwyddyn.



Ond unwaith eto, fe fydd y gweithgareddau yn cymryd lle yng Ngwesty'r Royal gan ddechrau gyda'r Twmpath ar y nos Wener sef Mehefin 17eg.

Fe fydd pawb yn ymgynnull yn y Royal ar y bore Sadwrn cyn symud ymlaen i Stryd y Parc, tu ol i'r Empire Pool, ar gyfer dechrau yr Orymdaith o gwmpas canol y Ddinas am 11.00.

Wedyn fe fydd y dawnswyr yn perfformio yn y Ddinas ac yng Nghaerffili ac yn Sain Ffagan cyn ailymuno unwaith eto am 4.00 yn yr Amgueddfa Werin ar gyfer y Dathliad o Wyl Ifan ei hun, a chodi'r Pawl wrth gwrs, gan 5.00.

Nos Sadwrn fe gynhelir Taplas Gwyl Ifan yn Neuadd y Ddinas, a bydd y dathliadau, yr Wyl Ymylol yn parhau yn y Royal am rhai oriau!!

Gobeithio wedyn y bydd pawb yn holliach ar gyfer y Gweithdai, yn y Royal ar fore Sul.

Digon o hwyl ar gael felly! Gobeithio y dewch chi i fwynhau'r Wyl gyda ni - edrychwn ymlaen at eich gweld.

Am fanylion pellach, cysylltwch a:

Dai James,
50, Prospect Drive,
Llandaf,
CAERDYDD.
Tel. 563989

## EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT

Am y tro cyntaf ers ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl cynhaliwyd yr Eisteddfod yng Ngwent. Derbyniwyd gwahoddiad gan Ddysgwyr Gwent i'w chynnal yno yn sgil Eisteddfod Casnewydd. Fe'i cynhaliwyd ar Nos Fercher 23 o Fawrth yn neuadd Coleg Technegol Crosskeys yng Ngwent. Gwnaed y trefniadau gan Ann Jones Tiwtor/Trefnydd Cymraeg i oedolion yng Ngwent.

Llywydd y noson oedd Dafydd Preece Pontcanna Caerdydd sy'n diwtor yng Nghanolfan yr Urdd Caerdydd ac a gafodd y syniadau yn y lle cyntaf o gynnal Eisteddfod i Ddysgwyr. Cafwyd cefnogaeth ardderchog i'r noson ac roedd y neuadd yn llawn.

---

## CWRS CERDDED Y MYNYDDOEDD I DDYSGWYR YR IAITH

Unwaith eto mae Plas Tan-y-Bwlch ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn trefnu Cwrs Cerdded y Mynyddoedd i Ddysgwyr yr iaith dros y penwythnos 27 - 30 o Fai. Cwrs ydy hwn i bobl sy wedi cyrraedd safon siarad da. Mae'r gost o gwmpas y £60. Arweinir y Cwrs gan Bennaeth newydd y Ganolfan sef Merfyn Williams ac fe'i cynorthwyir ef gan Gwilym Roberts Caerdydd. Am ragor o fanylion cysyllter â y Pennaeth, Plas Tan-y-Bwlch, Maentwrog, Gwynedd.

---

## CWRS A DREFNIR CYD (CYNGOR Y DYSGWYR) DE MORGANNWG

Cynhelir penwythnos Antur i Gymry Gymraeg a Dysgwyr yr iaith sy wedi cyrraed safon siarad da yng Nghanolfan Antur y Storey Arms ar Fannau Brycheiniog dros y penwythnos 9 - 11 o Fedi. Yn ystod y cyfnod ceir teithiau cerdded, ogofeyo, canwio ac ati, £20 fydd pris y cwrs ac fe'i arweinir gan Bob Pugh pennaeth Canolfan y Storey Arms. Y cyntaf i'r felin fydd hi gan mai dim ond lle i 20 sy ar y cwrs! Am ragor o fanylion cysyllter â Joan Williams, 6 Bron Awelon, Y Barri (736983).




Arlwyo Avril
Partïon, ac Achlysuron Arbennig.
Darperir at unrhyw rif.
Rhywbeth at ddant pawb.
Bwyd ffres.
Prisiau rhesymol.
Ffôn 481001 (Caerdydd) am fwydlen.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



# BARBACIW

Ym mis Mai eleni bydd HWYL A FFLAG yn cyflwyno "BARBACIW", Comedi i Oedolion gan Wiliam O Roberts, ym mhrif theatrau Cymru.

Portread dychanol o fywyd cyhoeddus a phreifat heddwas ag ymgeisydd seneddol Toriaidd yw'r ddrama newydd sbon yma, fydd yn ymdrin ag Arian, Rhyw a Gwleidyddiaeth fel brif themau gan ddefnyddio'r barbiciw fel symbol o'r dosbarth canol ddinesig Cymraeg. Fe leolir y digwyddiadau yn ystafell fyw teulu'r Emonds, lle cawn weld antics priodasol ag all-briodasol y prif gymeriad; clywed ei ddamcaniaethau ynglyn â moesoldeb yr 80'au a phrofi ychydig o flas y barbiciw mawr Thatcheraidd.

Yn unol â pholisi'r cwmni mi fydd "Barbiciw" yn uchelgeisiol ac arloesol o ran ei gynnwys a'i gyflwyniad, ag o'r herwydd yn cynnwys rhai golygfeydd a fydd efallai yn achosi sioc i rai. Mae felly anaddas i'r sawl dan 16.

Mae'r awdur, Wiliam O Roberts o Garndolbenmaen, eisioes yn adnabyddus ym maes llenyddiaeth fel gyn-enillydd Fedal Ddrama'r Eisteddfod Genedlaethol ym 1980 ag awdur dwy nofel ddadleuol, "Bingo" ac "Y Pla" - a saif "ben yn ysgwydd uwchlaw'r un nofel arall a gyhoeddwyd ym 1987" yn ôl y Faner. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Golygydd sgriptiau yn HTV, Caerdydd ag wrthi'n paratoi ei drydedd cyfrol rhyddiaith. Dyma'r tro cyntaf i ddrama o'i eiddo weld golau dydd fel cyflwyniad teithiol gan gwmni proffesiynol.

Y cast o bump yw Sêra Cracroft (aelod o gast ein Sioe Nadolig diweddar - "Codi Stêm"), Janet Aethwy, Bethan Dwyfor, Gwyn Parry a Gwyn Vaughan (pedwar a fu'n gweithio gyda ni ar "Codi'r Hwyl" - ein Gwyl o Ddramau Newydd).






# PRIODAS



Priodwyd Siwan, merch Ifan aGwenda Williams, a Reg, mab Molly a Reg Matthews yn Nhreorci ar Fawrth 26ain gyda thad Siwan yn gweinyddu. Athrawes Gymraeg yn Ysgol Glan Elai yw Siwan ac ar hyn o bryd mae Reg yn gwneud gwaith ymchwil yn Ysbyty'r Brifysgol. Ond, derbyniodd wahoddiad i fynd i St Louis yn yr Unol Daleithiau i weithio am ddwy flynedd ac felly, yn yr haf fe fydd y ddau yn croesi môr Iwerydd. Wrth eu llongyfarch ar eu priodas, dymunwn fywyd hapus iddyn nhw yn St Louis gan ofyn i Siwan am ambell i lythyr oddi yno i'r Dinesydd. Bydd 'na groeso mawr yn ey disgwyl yng Nghaerdydd ymhen dwy flynedd.

# Y CALENDR

Mai 5

Disgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn perfformio eu rhaglen nodwedd, 'Mwy na Gair' yn yr Ysgol Isaf, Tyllgoed am 7.30 o'r gloch.

Mai 5

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontsian Norton yn cynnal Cymanfa Ganu yng nghapel Sardis, Pontypridd am 6.30 o'r gloch.

Mai 21

Gorymdaith Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd trwy'r ddinas gan gynnwys gwasanaeth yng nghapel y Tabernacl. Ymgynnull ger capel Ebeneser am 10.30. Dechrau gorymdeithio am 11.00. Dewch yn llu!

Mai 22

Ysgol Gymraeg Sant Baruc, Y Barri yn cyflwyno pasiant yng nghapel yr Annibynwyr, y Tabernacl, Y Barri am 6.00 o'r gloch.


HYSBYSEBWCH YN

Y DINESYDD


ECONOMEG Y CARTREF - CRAIDD

Yn ddiweddar cyhoeddwyd a dosbarthwyd llyfryn craidd deniadol 'Economeg y Cartref' gan y Ganolfan Adnoddau yn Aberystwyth. Anfonwyd copiau yn rhad ac am ddim i ysgolion ond fe'u ceir hefyd yn y siopau llyfrau ar werth am £3.95 y copi.

Cymorth ariannol y Swyddfa Gymreig a'i gwnaeth hi'n bosibl i'r Ganolfan Adnoddau sefydlu Panel o arbenigwyr yn y maes i ystyried sut orau i gyfarfod â holl ofynion cyfoes y newid sydd yn digwydd heddiw o'i fewn. Anelwyd y llyfryn yn bennaf at ddisgyblion y pedwerydd a'r pumed dosbarth yn yr ysgolion uwchradd, ond mae'r cynnwys yn addas iawn ar gyfer gwŷr a gwragedd ifainc yn gyffredinol wrth iddynt fynd ati i sefydlu cartref a chychwyn teulu.

Un aelod o'r Panel yw Mrs Eleri Lewis, darlithwraig yn Adran Economeg y Cartref yng ngholeg y brifysgol yng Nghaerdydd. Clywsom lais Eleri droeon ar y radio yn trin a thrafod materion yn ymwneud â bwydydd a'u heffaith ar y corff.

Mynnwch olwg ar y llyfryn hwn ( y cyntaf o bump sydd ar y gweill). Bydd y clawr lliwgar, sgleiniog yn sicr o ddal eich llygad a'r cynnwys yr un mor siwr o ddal eich sylw a boddloni eich cywreinrwydd.

---

Llongyfarchiadau i Gwen a David Thomas Caerffili ar enedigaeth Owain Rhys ŵyr i Kitty a Dafydd Davies Caerdydd ac Elizabeth a Watcyn Thomas Llanelli.

---

Ganed yn ysbyty Dewi Sant ar Fawrth 29ain i Leo a Juli Paschalis, chwaer annwyl i Carys Hedd a Manon Elaine.

Ganwyd Lisa Mair, merch Delyth ac Eynon Williams yn Ysbyty'r Brifysgol ar Fawrth 30ain. Croeso amwr iddi hi. Mae'n siwr bod y ddwy 'chwaer fawr' sef Llinos a Nia wrth eu boddau efo'r fechan newydd.

---

Llongyfarchiadau brwd i Dr. Robert Owen ar gyrraedd yr oedran arbennig o 90 oed. Dethlir yr achlysir a pharti teuluol.Ymlawenhawn a'r cwmni.Ni fu hynafgwr mor heini yn ein plith ers tro. Llawer dedwydd dro ar y dydd.

---

Ein llongyfarchiadau i Jane ac Huw Eirug ar enedigaeth eu mab, Ifan ar Ebrill 6ed yn Ysbyty Dewi Sant. Croeso i'r bychan a dymuniadau gorau i'r teulu i gyd gan gynnwys y ddau Nain a Taid sef Elspeth a Douglas Griffiths, yr Eglwysnewydd ac Emily a Dewi Eirug Davies.


---

LLONGYFARCHIADAU

Penodwyd Arwel Owen yn ddirprwy brifathro yn ysgol newydd Ddwyieithog yng Nghwmcarn,Gwent

---

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn — RHIF 81



AR DRAWS

9. Crefftwyr sy'n medru codi o lwch yr erwa' (9)
10. Mae'n cynnig datrysiad, efallai (5)
11. Cawn ein gwynt atom (7)
12. Lle ceir ..... dodrefn sbar ac annibendod y tŷ (7)
13. ".... drwg Adda", gan C.P. (4)
14. Daw'r gwalch allan o fanc (4)
15. Mae'r crwydryn yn debyg i hen gerbyd sy'n rhedeg yn dawel (5)
16. Morys yn colli arno'i hun mewn dadl (7)
18. Gair o'r Lladin i straeon am ddistryw (7)
20. Brawd i dad y negro oedd Tomos (5)
22. Sylwgar a threiddgar (4)
23. Y mae'n dal o hyd (4)
24. Nid na, nage (7)
25. Y to mawr, sigledig, a godwyd i deithio (7)
27. Gorchymyn (5)
28. Gweler car ag angen ei drwsio ar y ffordd rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug (9)

I LAWR

1. Yr hyn a welir a safbwynt gwahanol (3, 4, 1, 7)
2. Bwyd a goginir gan lawer Arab dienw (4, 4)
3. Un peth nad oedd Gwyrosydd yn ei ofyn (4)
4. Bu'r Foneddiges Llanofer yn brysur iawn yng Ngwent (8)
5. Y radd eithaf o bwysau (6)
6. Un sy'n ceisio tynnu rhywbeth o'ch poced gan ddefnyddio cortyn da (8)
7. A ddaw pob cyw melyn adref o fan ei eni? (6)
8. Mae Delyth, Glenda a Lavinia yn perthyn yn agos iddi (5, 5, 5)
17. Eiry Palfrey a'i chyd-ddewiniaid? (8)
18, Yfer i'r gwaelod (8)
19. Gellir cadw pres o'r Sianel, ond ei wario yn fuddiol yw ei phwrpas (1, 6, 1)
21. Magwyd hwn yn y fath fodd fel y bydd yn ymwrthod (6)
22. Nid y casgliad, ond y weddi fer (6)
26. Troir y wisg Rufeinig yn goffadwriaeth (4)

DATRYSIAD RHIF 80

Ar Draws
1. CEIBIAIS; 6. DYFAIS;
9. PORTHOR; 10. ONGL SGWAR;
11. GWRHYDRI; 12. DEISYF;
13. DREFN; 14. ANGHYFIAWN;
17. ARADR EIRA; 19. MATHAU;
22. NODDWYR; 23. DWYSBIGO;
24. GOLLYNGDOD; 25. CHWYSFA;
26. DYDDIAU; 27. YSGYTWOL;

I Lawr
2. ETHOLWYR; 3. BYTH A HEFYD;
4. AFRADU; 5. STORI ANGHREDADWY;
6. DILEDRYW; 7. ARWISGA;
8. SGRIFENNU; 13. DRAENOGOD;
15. ISAFBWYNT; 16. BEDDRODAU;
18. ARDDULLYDD; 20. ATGOFIO;
21. CYLCHOG;

CYSTADLEUAETH RHIF 80

Derbyniwyd pedair ymgais, sef oddiwrth J. Lloyd, Ger-y-Llyn; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; Marged Jones, Cyncoed; a Marged Davies, Llandâf. Ond dim ond tair ohonynt oedd yn hollol gywir. Yr enw a godwyd o'r het oedd Gwenllian Gwyn Jones ac iddi hi yr â'r tocyn llyfrau y mis hwn.

# O'R GANOLFAN



Cafwyd Mis prysur yn y Ganolfan gyda'r adrannau a'r Aelwyd yn weithgar iawn yn trefnu gwahanol weithgareddau. Un o'r uchafbwyntiau mae'n siwr oedd trip yr Uwch Adran a'r Aelwyd i Storey Arms (Canolfan Awyr Agored De Morgannwg) sydd ym Mhowys! Dyma gyfle i'r dinasyddion meddal brofi bywyd caled y "mawr tu allan" - digon o gerdded, dringo, ogofau, canwio, a chyfle i ambell i ffwl neidio i ddyfnderoedd afon rhewllyd.

I ddathlu diwedd tymor y pasg trefnwyd noson o wisgo dillad di chwaeth yn yr Uwch Adran a chyfle gwych i Huw Reynolds wasgu ei hun i hen ddillad y chwedegau unwaith eto!

Ar y nos Wener olaf yng nghaledr yr Aelwyd trefnwyd dawns gyda'r Crumblowers gwelwyd hefyd nifer o grwpiau addawol eraill yn perfformio. Ffilmiwyd y noswaith a gobeithio bydd darnau ohonno i'w weld ar fideo newydd yr Urdd. Diolch yn fawr i Pipa a Medi am drefnu'r noson.

Newyddion da am dim pel droed yr Aelwyd, sef eu bod yn rownd terfynnol Cwpan Pantyfedwen. Yr ydym wrthi yn adeiladu'r cabinet fechgyn!

Mae Adran Llandaf wedi dechrau ar raglen newydd tymor yr Haf, ac edrychwn ymlaen at glywed rhai o'r hanesion.

TAITH I RWSIA

Mis Ebrill nesaf bydd taith i Rwsia ( blynyddoedd 4,5 a 6 Ysgolion Uwchradd ) pris y daith yw £420 ac y mae hwn yn cynnwys teithio o Gaerdydd / Abertawe i Gatwick, hedfan i Moscow ac aros yno am dair noson. Teithio ar dren dros nos i Leningrad ac aros yno am dair noson ac yna hedfan o Leningrad i Gatwick. Os am sicrhau lle neu am fwy o fanylion cysylltwch a ni yn y Ganolfan :

Canolfan yr Urdd
Heol Conwy,
Treganna
Caerdydd, CF1 9NT.
Ffôn 394452.

F.P. 2006